

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

System iechyd, gofal a lles integredig i Went

2017/18



Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional
Partnership Board

Gweithio mewn Partneriaeth



Bwrdd Iechyd
Aneurin Bevan
Health Board



Tabl Cynnwys

	tudalen
Foreword	4
1. Uchafbwyntiau'r Flwyddyn - Safbwyntiau'r Partneriaid	5
2. Cyflawniadau Allweddol yng nghyd-destun blaenoriaethau strategol	6
3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Ardal	7
4. Strwythur rheoli a threfniadau'r Bartneriaeth	8
5. Cyflawni system iechyd, gofal a lles integredig i Went	10
6. Partneriaethau Thematig	15
7. Blaenoriaethau'r Bwrdd yn y Dyfodol	20
Atodiad 1: Cofrestr o gyfarfodydd misol y BPRhgs	21
Annexe 2: Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	22

Rhagair



Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yng Ngwent, ond rwyf yn falch o nodi sut mae cydweithwyr y Bwrdd wedi cymryd rôl lywodraethu gryfach yn yr ail flwyddyn ym mywyd gweithredol y bwrdd, ac aethpwyd i'r afael â phynciau mewn modd cadarnhaol a phendant.

Mae'r 'strwythur gweithio' o dan y Bwrdd - sydd mewn gwirionedd yn symud ymlaen â'r gwaith integreiddio ymarferol - wedi cael ei adolygu a'i atgyfnerthu dros y flwyddyn ddiwethaf - ac yn awr rydym yn disgwyl i hyn ddwyn ffrwyth o ran y gwasanaethau y mae pobl Gwent yn eu derbyn.

Rwyf bob amser wedi dweud nad yw integreiddio yn ben ynddo'i hun - nid yw o werth onid ydyw'n gwella iechyd a lles y rhai sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) wedi derbyn cryn amser ac ymdrech yn y flwyddyn ddiwethaf - ac roedd yn garreg filltir bwysig unwaith y cytunodd y Bwrdd ar Femorandwm Dealltwriaeth a lofnodwyd gan yr holl bartneriaid statudol - ac rwy'n falch o gyflwyno - ein partneriaid Cyngor Gwirfoddol Cymunedol, CWT (Cynghrair Wirfoddol Torfaen) a CMGG (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent).

Gwnaed llawer o waith hefyd i ddatblygu trefniant i gronni cronfeydd (gyda Chytundeb Adran 33 ffurfiol) ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn, a chafodd hyn ei ddatblygu trwy weithio'n agos gyda'n darparwyr i ddatblygu cytundeb cyffredin a phroses monitro cyffredin.

Mae angen i ni fod yn agored i graffu a beirniadaeth adeiladol, ac eleni cawsom gwmni'r Gweinidog dros Ofal Cymdeithasol a Phlant yn ein cyfarfod ym mis Ionawr 2018 yn ogystal â chydweithwyr o Swyddfa Archwilio Cymru i'n cyfarfodydd mis Mawrth a mis Mehefin, wrth iddynt gynnal adolygiad cenedlaethol o Raglen CGI Llywodraeth Cymru.

Fel Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, hoffwn ddiolch i bawb fu'n gwasanaethu ar y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf am eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad brwd ar faterion a fu'n aml yn rhai hynod o gymhleth.

Phil Robson,
Is-gadeirydd BIPAB a Chadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

1. Uchafbwyntiau'r Flwyddyn - Safbwyntiau'r Partneriaid

Barn Aelod Etholedig o'r Awdurdod Lleol:

'I mi, mae'r bwrdd yn darparu fforwm clir ar gyfer arweinyddiaeth wleidyddol a rennir i lunio dyfodol gwasanaethau ein hetholwyr. Mae cyllidebau cyfunol ar gyfer cartrefi gofal wedi bod yn bwnc pwysig, felly hefyd y Cynllun Ardal - am fod y ddau wedi gorfod mynd yn ôl at ein cyfarfodydd Cyngor a Chabinet priodol i gael eu cymeradwyo.'

Barn aelod o'r Fforwm Darparwyr:

'Rwyf wedi gweld neu wedi cael rhywfaint o gyfranogiad mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru, ac mae'n deg dweud bod y BPRh yma yng Ngwent yn cynnwys pawb ac mae cyfle i gynnal trafodaeth weithgar - a thrafod pwyntiau pwysig. Roeddem yn falch o allu cyflwyno adborth a phryderon yn uniongyrchol i'r BPRh yn dilyn digwyddiad darparwyr a oedd yn cynnwys dros 60 o ddarparwyr; y drafodaeth agored sy'n gysylltiedig â hyn yn adlewyrchu dymuniad y bwrdd i ymgysylltu mewn modd ystyrlon. Rydym hefyd wedi gallu cytuno ar fecanwaith clir i ddarparwyr wneud cais am brosiectau a ariennir gan y CGI wrth symud ymlaen. Fel cynrychiolwyr darparwyr, rydym yn adrodd yn ôl i'r fforwm darparwyr rhanbarthol; mae hyn yn gweithio'n dda a dylid ei weld fel model i'w hadlewyrchu mewn rhanbarthau eraill lle mae trefniadau yn llai eglur. Rydym wedi gweld peth gwaith da yn cael ei wneud - e.e. ar gyllidebau cyfunol, ac ar eiriolaeth, fodd bynnag, mae angen cael cynrychiolwyr etholedig a chynrychiolwyr atebol o blith darparwyr ym mhob partneriaeth strategol, sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu ac nid gweithredu'n unig. Mae hwn yn 'waith sy'n mynd rhagddo' ac mae gennym beth ffordd i fynd cyn bod darparwyr preifat a 3ydd sector yn cael eu trin fel gwir 'bartneriaid strategol' yn hytrach na 'sefydliadau cyflawni' - rydym wedi ymrwymo i gyrraedd y fan honno!'

Barn Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol:

'Gall partneriaeth ac integreiddio fod yn waith caled - mae'n mynnu ein bod yn agored ac yn onest gyda'n gilydd. Mae'n hawdd cytuno ar gysyniadau, ac yn anos gwneud hynny pan fo arian ar y bwrdd a rhaid inni ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu. O'r herwydd, mae'r GGI wedi bod yn her benodol, a chael proses glir - yn ogystal â chydabyddiaeth o'r adegau pan nad yw pethau wedi gweithio'n dda - heb os, wedi bod yn ddefnyddiol.'

Barn Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol

'Mae'r BPRh wedi rhoi cyfle go iawn i ystyried sut yr ydym am weithio ar y cyd o ran integreiddio ar y meysydd hynny o bwysau a rennir. Mae'n parhau'n heriol, ond mae gwir awydd i newid. Eisoedd mae'r gwaith yr ydym yn ei ddatblygu o ran Gofal Cartref, a Gofal yn Nes at y Cartref, yn dechrau sbarduno cyflymder y newidiadau.'

Barn Dinesydd sy'n Aelod:

'Mae'r BPRh wedi bod gennym bellach ers ychydig flynyddoedd. Rydym wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau a gwaith y Bwrdd. Fe wnaethom ddwyn adroddiad blynyddol ein panel dinasyddion ger eu bron a siaradom â hwy, gan estyn gwahoddiad i Gyfarwyddwyr ac Aelodau Gweithredol ddod i gyfarfod panel dinasyddion pan fydd yn eu hardal. Mae'n wych eu bod wedi derbyn hyn, a hyd yn hyn yn 2018 mae Aelodau Gweithredol wedi mynychu cyfarfod ym Mlaenau Gwent ac yn Sir Fynwy. Bu'n dda iawn i gael golwg ar yr anawsterau y mae pobl hyn yn eu hwynebu - ac nid ydynt yn dal yn ôl ar ein cyfrif - felly rydym yn gwerthfawrogi'r trafodaethau agored a gynhelir gan y Bwrdd.'

2. Cyflawniadau Allweddol yng nghyd-destun blaenoriaethau strategol

Tasg	Cynnydd
Gweithredu cynllun Gwent gyfan i greu sefydliadau sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod (PNmP), a gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gwent ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.	Gwaith parhaus gyda'r Heddlu, trwy Bartneriaeth PPI i sefydlu'r rhaglen, gan gynnwys llywodraethu priodol ac aliniad â gwaith ehangach y Bartneriaeth PPhl.
Datblygu llwybrau gofal integredig newydd ar gyfer oedolion hŷn sydd ag anghenion cymhleth.	Mae gwaith wedi'i ddatblygu ym Mwrdd Partneriaeth Integredig Casnewydd i ddatblygu llwybr sy'n gweithio gyda'r holl bartneriaid ac mae hyn yn cael ei werthuso gyda'r bwriad o'i ehangu.
Adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).	Datblygwyd bidiau drafft a fydd yn cael eu cyflwyno i'r gronfa drawsnewid cenedlaethol, a'r gronfa drawsnewid ac arloesi IM.
Datblygu a chyflwyno cynllun gweithredu strategol rhanbarthol ar ddementia i gwrdd ag anghenion pobl sy'n dioddef o ddementia.	Datblygwyd cynllun dementia drafft ac mae hyn bellach yn bwrw ymlaen â chynllun gweithredu gyda'r holl bartneriaid.
Galluogi Gofalwyr i fod yn ffocws blaenoriaeth y tîm gofal sylfaenol ehangach, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr a rhagnodwyr cymdeithasol.	Sefydlwyd grŵp cyfeirio bychan i gytuno ar flaenoriaethau a blaenweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr RhGC.
Cydweithio â'r adran tai i gynllunio a dylunio modelau llety newydd.	Comisiynwyd adolygiad o anghenion tai pobl hŷn gydag Iechyd y Cyhoedd.
Datblygu gweithlu gofal a lles integredig i Went trwy dreialu model Academi Gwent.	Sicrhawyd cyllid trwy GCI i gwmpasu model yr Academi, gyda chynllun rhaglen yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
Ystyried fframwaith cyllido newydd i symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol, a chynyddu cyllidebau cyfunol.	Mae proses werthuso CGI gadarn wedi'i datblygu ac mae hyn bellach yn cael ei ystyried ar gyfer ffrydiau ariannu eraill.
Gweithredu WCCIS a threialu technolegau newydd i gefnogi diagnosis, triniaeth a gofal cymunedol.	Mae Bwrdd Rhaglen ranbarthol bellach ar waith ar gyfer WCCIS ac mae'r 'gwerth ychwanegol' y gall y system ei chyflwyno, yn cael ei archwilio.
Datblygu strategaeth ystadau effeithiol ac integredig ar gyfer system integredig o iechyd, gofal a lies.	Megis dechrau yw'r cam hwn, ond mae'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai yn datblygu rhaglen waith ranbarthol, yn crynhoi prosiectau cyfalaf a blaenoriaethau gan y partneriaethau integredig.

3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Ardal

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi sut y gweithredodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, ac unrhyw drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau sydd yn eu lle.

Diben y Bwrdd fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl yw:

'Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf yn gorff partneriaeth allweddol a sefydlwyd i arwain a llywio gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn ardal Gwent Fwyaf (sy'n cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen), ac yn eistedd o fewn ôl troed ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.'

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau integredig o dan y BPRh, disgwylir diweddariad o gylch gorchwyl y BPRh yng nghanol 2018 er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu diweddarau a bod goruchwyliaeth glir o'r Cynllun Ardal.

Blaenoriaethau hirdymor y BPRh yw:


- Gwella canlyniadau iechyd a lles a lleihau anghydraddoldeb yn y rhanbarth.
- Gwella gofal, triniaeth a chymorth, gan sicrhau bod pobl yn cael mwy o ddweud a mwy o reolaeth.
- Rhoi gwybodaeth a chynghor i helpu pobl i gynnal iechyd a lles da.
- Darparu gofal a chymorth gofal cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar y person.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.
- Alinio neu integreiddio swyddogaethau ac adnoddau, lle mae integreiddio yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion.

4. Strwythur rheoli a threfniadau'r Bartneriaeth

Ymgwymerwyd â gwaith sylweddol gydag aelodau'r Bwrdd i sefydlu fframwaith llywodraethu cadarn i gyfeirio gwaith a'i drosi er mwyn iddo weithredu'n effeithiol yn lleol. Sefydlwyd model newydd o rheoli i rhannu'r arweinyddiaeth, a sicrhau bod y Cynllun Ardal wedi'i alinio'n briodol â chynlluniau corfforaethol yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, a chyda amcanion lles Cynlluniau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Datblygwyd fframwaith cyflenwi newydd, i ategu at y Cynllun Ardal a sicrhau bod newid yn cael ei gyflawni yn unol â'r mesurau canlyniadau y cytunwyd arnynt a nodwyd yn y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno trwy'r pum partneriaeth thematig, a'i drosi er mwyn ei weithredu'n lleol gan y 'Byrddau Partneriaeth Integredig' a'r model RhGC.

Rhoddwyd pwyslais sylweddol ar ddatblygu fframwaith cyflawni hwn, sy'n cael ei briodoli ar arweinyddiaeth a rennir o du'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n galluogi cysondeb rhanbarthol ochr yn ochr â hyblygrwydd lleol, o ran cydnabod natur unigryw y pum awdurdod lleol yn Ngwent.



Mae'r partneriaethau thematig wedi datblygu rhaglen waith strategol yr un, a fydd yn cael ei drosi ar lefel leol trwy'r 'Byrddau Partneriaeth Integredig' a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Sefydlwyd y rhain i sbarduno newid lleol, gan drosi'r ymrwymadau rhanbarthol yn weithgarwch lleol ar y llawr. Maent yn cynnwys arweinwyr strategol yn yr ardal, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac maent yn sicrhau ffocws ehangach ar newid o fewn llywodraeth leol gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y sector iechyd a gwirfoddol. Er enghraifft, bydd Bwrdd Partneriaeth Integredig Casnewydd yn goruchwyllo datblygiad cynnig Canolfan Iechyd a Lles Ringland.

Cynhaliwyd adolygiad o bartneriaethau strategol rhanbarthol sy'n datblygu gwaith integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth yn 2017/18.

Mae yna hefyd rai grwpiau sydd â chyswllt adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r BPRh ac mae hynny'n ddefnyddiol o ran amlygu 'darlun cyfan' yn nhermau iechyd a gofal cymdeithasol, ond sydd â chyfrifoldeb penodol i'r Bwrdd Iechyd.

A byddai'r rhain yn cynnwys:

- Y Bwrdd Gofal Iechyd Parhaus (neu ofal hirdymor),
- Bwrdd Rhaglen Dyfodol Clinigol lefel 1,
- Y Bwrdd Gofal Heb ei drefnu.

Mae yna hefyd rai grwpiau swyddogaethol eraill, a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, fel sy'n ofynnol ar lefel ranbarthol.

Mae hyn yn cynnwys:

- Y panel dinasyddion rhanbarthol (gan gynnwys gofalwyr), gyda dau gynrychiolydd i'r BPRh.
- Y fforwm darparwyr seiliedig ar werth, i gysylltu â'r BPRh yn uniongyrchol - cael dau gynrychiolydd etholedig i eistedd ar y Bwrdd.
- Cysylltiad ag arweinwyr cyfathrebu ar draws y sefydliadau statudol sy'n bartneriaid i sicrhau cysondeb o ran dosbarthu gwybodaeth.

5. Cyflawni system iechyd, gofal a lles integredig i Went

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi amcanion allweddol y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys yr amcanion allweddol penodol yn y Cynllun Ardal a mynd i'r afael â'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer integreiddio yn yr Arweiniad Rhan 9 - pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor; pobl ag anableddau dysgu; gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc; Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd; Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Mae Cynllun Ardal Gwent yn nodi'r weledigaeth ar gyfer system integredig o iechyd, gofal a lles ar draws Gwent. Mae ar y cyd rhwng Iechyd, Llywodraeth Leol a chydweithwyr yn y Trydydd Sector wedi ysgogi datblygiad y cynllun. Mae'n uchelgeisiol, ac mae'n gosod llwybr clir ar gyfer cyflwyno model integredig o ofal iechyd a lles ar draws Gwent. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPRh) yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth o ran cyflwyno'r cynllun, gyda chymorth systemau llywodraethu a rheoli perfformiad priodol.

Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro o gwmpas y themâu craidd statudol a nodir yn arweiniad y Cynllun Ardal a grwpiau poblogaeth o flaenoriaeth, lle mae angen newid cam yng nghyflymder y trawsnewid, sef oedolion hŷn, plant a phobl ifanc, gofalwyr; a phobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl. Yn sail i'r grwpiau strategol hyn mae ffrydiau gwaith ar dai, y gweithlu, cyllid a thechnoleg gynorthwyol. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno trwy strwythur newydd sy'n cynnwys gweithgarwch rhanbarthol (partneriaethau strategol) gweithgarwch lleol (5 x bwrdd integredig) a modelau cymdogaeth (RhGC).

Mae'r RPB yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth ar ddatblygiad a chyflwyniad y cynllun. Fe'i cefnogir gan grŵp Arweinyddiaeth o uwch swyddogion, sy'n cwrdd bob chwe wythnos. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi sefydlu rhaglen ddatblygu i gefnogi gweithio mewn partneriaeth, a chydweithio i gyflawni'r uchelgeisiau amlwg a nodir yn y cynllun i ddarparu system iechyd, gofal a lles sy'n wirioneddol integredig. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth eisoes wedi cynnal sesiynau datblygu strategol ar gyfer y BPRh ar effaith yr adolygiad Seneddol, a disgwylir iddynt gynnal sesiwn ar rôl y BPRh o ran gweithredu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein bwriad trwy Gynllun Ardal Gwent yw ail-fodelu gwasanaethau i leihau cymhlethdod diangen a darparu dull mwy integredig, rhyngbroffesiynol o weithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi datblygu model 'trawsnewidiol' newydd sy'n canolbwyntio ar 'ofal yn seiliedig ar le', gyda gwasanaethau sy'n gweithredu ar sail poblogaeth leol, gyda chefnogaeth arbenigedd


sy'n fwy arbenigol ar lefel ehangach. Model Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (RhGC) sy'n unigryw i Went fydd yn cyflwyno, gyda byrddau partneriaeth integredig lleol yn darparu arweinyddiaeth, rheolaeth ac atebolrwydd ar lefel awdurdod lleol.

Mae strwythur cyflenwi cryf wedi'i sefydlu, sydd ar lefel strategol, yn darparu lle effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, craffu a herio'n feirniadol. Gwahoddwyd yr adran Tai a'r Heddlu i gydnabod eu rôl yn y bartneriaeth o ran cyflawni'r nodau a nodir yn y cynllun. Rydym hefyd yn falch o'n strwythur cyflenwi lleol effeithiol sy'n llywio her gymhleth o bum awdurdod lleol ar draws Gwent, trwy ddatblygu Byrddau Partneriaeth Integredig a RhGC. Er bod y ddau yn eu dyddiau cynnar, mae yna ymagwedd gysondeb ar draws y rhanbarth ac ymrwymiad a rennir gan arweinwyr i sefydlu strwythur darparu rhanbarthol / lleol effeithiol.

Mae'r cynllun wedi'i gyd-gynhyrchu gyda dinasyddion trwy broses ymgysylltu a chyfathrebu sylweddol, gyda phanel dinasyddion Gwent, grwpiau materion penodol, cleifion, teuluoedd a gofawyr. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn bwriadu trawsnewid gwasanaethau sy'n darparu mwy o ofal yn nes at y cartref. Byddwn yn rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn, gan gyd-gynhyrchu eu pecynnau gofal a chymorth, a sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth, bod yna rhywun yn gwrandao arnynt a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn ein gofal.

Mae cynnwys y Cynllun Ardal yn ategu at gynlluniau corfforaethol y pum awdurdod lleol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, mae hyn yn sicrhau bod unrhyw weithgarwch yn cyd-fynd â nodau corfforaethol gofynnol y ddau sefydliad i sicrhau bod newid trawsnewidiol tuag at system integredig yn dod yn fusnes craidd, yn hytrach na bod yn 'ychwanegiad' neu ddyhead.

Datblygwyd y cynllun hefyd ar y cyd â'r Cynlluniau Lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n cefnogi datblygiad naratif Gwent, sef system integredig ar draws continwwm gofal, o wasanaethau cyffredin i wasanaethau wedi'u targedu. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i fapio fframweithiau cynllunio a llywodraethu i ddisgrifio'r berthynas a'r dibyniaethau rhwng y BGC a'r BPRh.



Cyflawni Newid: Gweithio'n integredig fesul ardal

Model Rhwydwaith Gofal Cymdogol Gwent (RhGC)

Sefydlwyd RhGC mewn ardaloedd, sy'n cynnwys gofal sylfaenol, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr y trydydd sector. Trwy 'weithlu lles' byddant yn darparu gwasanaethau integredig ar draws y gymuned.

Eleni gwelwyd datblygiad gweithlu lles RhGC pan benodwyd:

- Fferyllwyr mewn practisiau.
- Ffisiotherapyddion mewn practisiau.
- Penodi gweithwyr cymdeithasol mewn practisiau.
- Datblygu a phrynu Map Ffordd Dementia ar draws pob RhGC.
- Datblygu nyrsio cymunedol 24/7.
- Cynllunio gofal rhagweledol - gweithio gyda chartrefi gofal.

Cyflawni Newid: DEWIS (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)

Datblygiad rhanbarthol pwysig oedd cymryd ymagwedd gydlynol at borth dinasyddion Dewis gan ariannu gallu staff penodol i gyflwyno ac ehangu ei gyrhaeddiad.

Cynhaliwyd digwyddiadau lansio lleol ar draws pob ardal ac roedd hwn yn gyfle i godi ymwybyddiaeth a diddordeb darparwyr gwasanaethau a dinasyddion. Disgwylir achlysur lansio cenedlaethol ar raddfa fawr ym mid Gorffennaf 2018. Cymerwyd cyfle hefyd i dynnu sylw at borth dinasyddion Dewis yn Sioe Wysg yn hydref 2017.



Cyflawni Newid: Gweithwyr Cymorth Cyfoedion

Mae Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis (EIPS) BIPAB, mewn partneriaeth â Growing Space, wedi hyfforddi a recriwtio dau Weithiwr Cymorth Cymheiriaid.

Gellir diffinio Cymorth Cyfoedion fel math o fentora sy'n digwydd rhwng person sydd â phrofiad byw o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, a pherson sy'n newydd i'r profiad hwnnw. Gall Gweithwyr Cymorth Cyfoedion ddarparu hyfforddiant, mewnbyn i waith grŵp yn ogystal â gweithio un i un gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae tystiolaeth gynyddol i gefnogi cyflogi GCC, yn cynnwys tystiolaeth eu bod yn lleihau'r defnydd o welyau iechyd meddwl i gleifion mewnol.

Dyma elfennau allweddol Cymorth Cyfoedion:

- Caiff ei adeiladu ar brofiadau personol a rhennir ac empathi.
- Mae'n canolbwyntio ar gryfderau ac nid gwendidau'r unigolyn.
- Mae'n gweithio tuag at wella'r unigolyn a lles yr unigolyn hwnnw.



Cyflawni Newid:

Anhwylderau Bwyta ymhlith Plant a Phobl Ifanc

Mae yna dîm anhwylder bwyta cymunedol penodol sy'n bodloni'r safon mynediad a amser aros i ddarparu asesiad rheolaidd o Blentyn neu Berson Ifanc ar ran Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae hyn yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc a llai o dderbyniadau i welyau Haen 4.

Mae clinigau asesu anhwylderau bwyta wythnosol ar gael i blant a phobl ifanc ac mae pawb sy'n cael eu hatgyfeirio yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod.

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn argyfwng yn cael eu derbyn i uned cleifion mewnol ac yn cael eu rheoli ar y cyd rhwng CAMHS a'r feddygaeth Pediatrig.

Cyflawni Newid: A regional approach to Advocacy

Amlygodd adolygiad rhanbarthol o wasanaethau a gomisiynwyd gan y trydydd sector yn 2016/17 amrywiadau yn y ddarpariaeth eiriolaeth, ac mae'r rhanbarth wedi gweithio gyda Phrosiect Eirioli Llinyn Aur a ariennir gan Lywodraeth Cymru i nodi ymagwedd ranbarthol ar gyfer comisiynu a chefnogi eiriolaeth. Gwnaed cytundeb i gymryd agwedd 'cyd-gynhyrchu', gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gomisiynu eirioli ar gyfer Ebrill 2019.



Cynhaliwyd gweithdai ar gyfer y llu o randdeiliaid ym Mawrth 2018, ac roedd y rhain yn cynnwys comisiynwyr, darparwyr, dinasyddion, gofalwyr a rheolwyr gweithredol. Bydd yr allbwn o'r sesiynau hyn yn llywio camau nesaf y broses, gyda llawer o gyfranogwyr eisoes yn ymrwymo i chwarae rhan lawn.

Cyflawni Newid: Darparu cefnogaeth i fywyd ochr yn ochr â gofalu

Er mwyn helpu i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofal a seibiant, cytunwyd ar ymagwedd bartneriaeth ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector i ddatblygu Cynllun Grantiau Bach i ofalwyr. Y nod yw cefnogi gofalwyr mewn gwahanol agweddau ar eu rôl ofalu. Mae'r cynllun yn agored ac yn hygyrch i bob gofalwr dros 16 oed ar draws rhanbarth partneriaeth Gwent Fwyaf.

Er mwyn sicrhau cysondeb yn ei ddull gweithredu aethom ati i weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru, i gyflwyno a monitro'r cynllun ar draws y rhanbarth. Datblygwyd nodiadau cyfarwyddyd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i amlinellu'r broses ymgeisio a'r themâu.

Cynhaliwyd panel Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ystyried pob cais a dderbyniwyd, gan gyfarfod bob pythefnos. O blith 146 o geisiadau yn y flwyddyn, cymeradwywyd 114.

6. Partneriaethau Thematig

Mae'r BPRh wedi sefydlu pum partneriaeth strategol thematig, sy'n datblygu rhaglenni gwaith clir i gyflawni'r canlyniadau a sefydlwyd yn y cynllun.

Bydd y partneriaethau'n cymryd i ystyriaeth:

- Cyllid perthnasol a ddyrennir gan YGGI.
- Y gofyniad i wella Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Bydd angen i'r partneriaethau hefyd gydweithio gydag is-grwpiau thematig y BGC a phartneriaethau statudol eraill sy'n rhannu agendâu tebyg ac felly angen i alinio blaenoriaethau strategol.

Gan gynnwys:

- Bwrdd Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).
- Bwrdd Cynllunio Ardal (arwain ar yr agenda camddefnyddio sylweddau).
- Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan bob un o'r partneriaethau thematig wrth gyflwyno newid.

Gwella Canlyniadau- Bwrdd Partneriaeth Strategol Oedolion Gwent (GASP)

Gwasanaethau gofal integredig Monnow Vale a Gogledd Sir Fynwy:

Dechreuwyd datblygiad Bro Mynwy ar ôl trafodaethau rhwng meddygfeydd teuluoedd lleol ac adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy. Roedd gan y meddygfeydd gynilion sylweddol i ddeiliaid cronfeydd yr oeddent yn barod i'w neilltuo i'r prosiect. Y sbardunwyr oedd ysbyty sy'n heneiddio, diffyg cyfleusterau cleifion allanol a chyfleusterau gwael ar wasgar ar gyfer gwasanaethau dydd lleol, yn enwedig ar gyfer yr henoed.

Monnow Vale wnaeth gymryd lle hen Ysbyty GIG Trefynwy a Drybridge House, yr awdurdod lleol. Mae'n cynnwys cyfuniad o wasanaethau cymunedol a gwasanaethau cleifion mewnol, gan fod yno ward sengl gyda 19 o welyau. Mae'r gwasanaethau eraill ar y safle yn cynnwys: Tîm gofal canolradd; Tîm cymorth hirdymor; Gwasanaethau dydd; Clinigau arbenigol. Goruchwylir y cytundebau adran 33 trwy Bartneriaeth Integredig Sir Fynwy.

Cyllidebau cyfunol ar gyfer cartrefi gofal: Mae'r rhanbarth wedi codi'r her o ddatblygu Cytundeb Cronfa Gyfunol (Adran 33) ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol. Hyd yn hyn mae pob partner wedi 'cofrestru' i gynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer 2018/18 sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar y cynnydd a wnaed yn erbyn gofynion Rhan 9 o'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Lles.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cytundeb Adran 33 cytunedig i reoli'r gronfa gyfunol ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn ar ran Partneriaeth Ranbarthol Gwent.
- Datganiadau sefyllfa ariannol a gwasanaethau a gomisiynir yn ranbarthol y cytunir arnynt fydd yn trosi'n Ddatganiad o Sefyllfa'r Farchnad yn Ranbarthol a Strategaeth Gomisiynu Gwent.
- Cytundeb Cyffredin ranbarthol y cytunir arno i ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngwent.
- Rhaglen waith y cytunir arni, fydd yn sicrhau y bydd y rhanbarth yn cydymffurfio'n llawn â Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles.

Ehangu'r Ymwybyddiaeth o Ddementia: Mae gwaith helaeth wedi mynd yn ei flaen yn 2017/18 i amlygu ymwybyddiaeth o ddementia. Ym mis Ebrill 2017 roedd cysylltiadau â BGC Casnewydd a chytundeb i ddod at ei gilydd i roi hwb i ymdrechion i sicrhau bod Casnewydd yn dod yn ddinas sy'n ystyriol o ddementia a'i chynnwys fel rhaglen waith o flaenoriaeth yn y Cynllun Lles newydd. Mae rhai partneriaid eisoes wedi cyflawni achrediad unigol trwy gynllun Cymdeithas Alzheimer, neu'n anelu i wneud hynny, ond trwy weithio'n agosach, y nod yw gwella gwasanaethau a dealltwriaeth o anghenion y rhai â dementia yn gyflymach ac yn gyson ar draws y ddinas a chyn hir ysgol uwchradd Gatholig Sant Joseff fydd yr ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill statws ysgol sy'n ystyriol o ddementia gan Gymdeithas Alzheimer. Mae dros 15,000 o bobl ledled y rhanbarth bellach yn Gyfeillion Dementia ers dyfodiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.



Ymagwedd rhanbarthol i Ofal Cartref: Mae'r BPRh yn cydnabod bod gofal cartref dan bwysau ar draws y rhanbarth a'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae Gwent wedi penderfynu dilyn dull rhaglen ar draws y bartneriaeth i sicrhau bod yr ardal hon yn derbyn sylw priodol a bod camau'n cael eu cymryd yn amserol i liniaru'r risgiau i ddarparu gofal parhaus i unigolion. Mae'r camau sy'n cael eu cymryd a'u cynllunio yn disgyn dan ddau brif bennawd:

Gwasanaethau a gomisiynir:

- Datganiad o'r sefyllfa ranbarthol ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a gomisiynir ar draws y bartneriaeth sy'n dadansoddi nifer y darparwyr ac oriau a gomisiynir. Mae hyn yn dechrau nodi risgiau uchel eu lefel a phwyntiau pwysedd.
- Ymagweddau rhanbarthol at bolisiâu a gweithdrefnau, er enghraifft, polisiâu meddyginiaeth.
- Ystyried modelau newydd o wasanaethau, gan gynnwys lledaenu arfer da.

Datblygu deunyddiau recriwtio rhanbarthol:

- Ymgysylltu cychwynnol â cholegau a chydag ysgolion i hyrwyddo'r 'gweithlu lles'.
- Sesiynau datblygu gyda darparwyr mewn perthynas â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA).
- Ymgysylltu â darparwyr ynghylch rhwystrau i recriwtio a chadw, a datblygu astudiaethau achos.
- Strategaeth cyfryngau cymdeithasol arfaethedig, ar draws y rhanbarth, a chynnwys darparwyr.

Rhaglen Eiddilwch Gwent: Nod y Rhaglen Eiddilwch oedd creu model gofal integredig wedi'i lleoli yn y gymuned.

Roedd yn anelu i adnabod ffactorau rhyng-gysylltiedig fel:

- Cyflwr meddygol.
- Materion iechyd cysylltiedig.
- Lles.
- Ffactorau byw ymarferol megis tai, incwm, diogelwch, trafndiaeth.
- Ffactorau personol / cymdeithasol, ee unigedd, teulu, amodau byw. hyder.
- Gwasanaethau gofal teuluol a ffurfiol.

Cytunwyd ar gyfraniad blynyddol i gefnogi'r Comisiynydd Arweiniol ar sail cyfraniad cyfartal gan y chwe phartner. Adolygwyd y Cytundeb Partneriaeth Adran 33 ffurfiol, a chytunwyd ar gytundeb newydd yn 2016. Yn 2017/18 cytunwyd y byddai'r rhaglen eiddilwch yn dod yn uniongyrchol o dan strwythur y BPRh, trwy'r Bartneriaeth Strategol i Oedolion, gydag adroddiad rheolaidd ar weithgarwch, yn unol â ffrydiau gwaith integredig eraill.

Gwella Canlyniadau: Partneriaeth Strategol ar gyfer Gofalwyr

Rydym wedi:

- Parhau i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ein Bwrdd Partneriaeth Strategol Gofalwyr yng Ngwent Fwyaf a phrosesau eraill.
- Gwerthfawrogi partneriaethau sy'n bodoli drwy gynnal rhwydwaith o ofalwyr.
- Parhau i wneud ymdrechion ar y cyd i feithrin partneriaethau newydd i hwyluso cynllunio gwell a chyflawni gwasanaethau sy'n briodol i ofalwyr.
- Gweithio ar y cyd gyda'r bartneriaeth i sefydlu cynllun grantiau bach i helpu i ddarparu cefnogaeth i ofalwyr yn eu rôl ofalu.
- Gweithio ar y cyd gydag 8 ysgol ledled Gwent i dreialu cynllun gwobr ysgol i ofalwyr ifanc.
- Parhau i gefnogi digwyddiadau fel Wythnos Gofalwyr a Diwrnod Hawliau Gofalwyr ledled Partneriaeth Gwent Fwyaf.

Ar y gweill:

- Ehangu a datblygu prosiectau cefnogi gofalwyr lleol i ehangu ystod a chyrhaeddiad.
- Datblygu rôl Swyddog Cefnogi Gofalwyr Ifanc yn yr ardal.
- Rydym yn cydnabod bod adnabod gofalwyr yn gynnar yn allweddol a chroesawn flaenoriaethau ychwanegol Llywodraeth Cymru yn ystod 2018/19 i weithio i gefnogi meddygfeydd a gwella'r gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir i ofalwyr yn dilyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
- Byddwn yn adolygu ac yn diwygio ein darpariaethau presennol o gefnogaeth i Feddygon Teulu lle bo hynny'n briodol ac yn edrych ar y ffordd orau o gefnogi'r gwasanaethau a ddarparwn i ofalwyr mewn prosesau rhyddhau. Bydd mwy o ffocws ar hyrwyddo e-ddysgu ar draws Gwent.
- Byddwn yn ystyried datblygu tîm Gofalwyr ledled Gwent i gefnogi gwaith y Bartneriaeth Strategol i gyflawni ei ymrwymïadau, gan ddod ag adnoddau'r Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol a'r trydydd sector at ei gilydd i osgoi dyblygu a gwneud rhai darbodion maint.

Gwella Canlyniadau: Partneriaeth Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Cynlluniwyd:

- Cwmpasu a datblygu rhaglen gyflogaeth â chefnogaeth, gyda chymorth cyllid CGI.
- Ehangu a datblygu cynlluniau trawsnewid (plentyn i oedolyn) yn rhanbarthol.
- Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Gwent - Mae'r Concordat yn sicrhau bod pobl sy'n cael eu cadw dan Adrannau 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn derbyn lefel briodol o ofal. Mae mentrau newydd wedi cynnwys lleoli gweithiwr iechyd meddwl yn ystafell reoli'r heddlu i gefnogi swyddogion heddlu rheng flaen sy'n wynebu person a allai fod yn dioddef argyfwng. Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus hwn, mae Heddlu Gwent, gyda chefnogaeth BIPAB a'r awdurdodau lleol bellach yn penodi gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn ystafell rheoli'r heddlu i ddarparu gwasanaeth dros gyfnod o 24 awr.
- Gofalwyr - Ar draws y 5 bwrdeistref yng Ngwent mae amrywiaeth o wasanaethau yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal a chymorth gofalwyr sy'n gofalu am berson ag anghenion iechyd meddwl. Er enghraifft, yn Ysbyty'r Sir mae grŵp gofalwyr wythnosol yn cael ei gynnal gyda chefnogaeth Hafal ac iechyd. Mae pob awdurdod lleol mewn partneriaeth â'r trydydd sector wedi sefydlu cynllun grant gofalwyr.
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig - Dyma bartneriaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod mynediad amserol i asesiadau a thriniaeth i bobl sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a hefyd i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i'w gofalwyr.

Gwella Canlyniadau: Partneriaeth Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

- Asesu a chynllunio integredig (ISCAN) ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol cymhleth/ anableddau - gan ddefnyddio model cydlynu gofal er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n sgiliau ac adnoddau, trwy brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gofal cymhleth yn rhanbarthol.
- Datblygu darpariaeth preswyl amgen i Went gyfan (hwb adnoddau) gyda chefnogaeth gyda chefnogaeth gan wasanaeth ymlyniad allgymorth a gwasanaeth yn seiliedig ar drawma a thîm sgiliau allgymorth i fyw ar gyfer pobl sy'n gadael gofal (fel rhan o fodel camu fyny a chamu i lawr) a fydd hefyd yn cynnwys:
 - Llety argyfwng, seibiant ac argyfwng difrifol.
 - Cefnogaeth ymarferol a therapiwtig seicolegol.
 - Ehangu'r ddarpariaeth o lety addas i symud ymlaen.
- Cymorth i blant sy'n agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal - mae CAMHS wedi cefnogi ystod o fentrau i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed sydd wedi cynnwys Sgiliau i Fyw a seicolegwyr sy'n gweithio mewn timau plant sy'n derbyn gofal a thimau maethu/mabwysiadu.
- Cefnogi datblygu gwasanaeth trawma ac ymlyniad i gefnogi model arfer cyffredin ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a phartneriaid eraill. Canlyniad y gwasanaethau atodol yw darparu hyfforddiant effeithiol a chysion i staff rheng flaen i gefnogi a hyrwyddo perthnasau teuluol.

Gwella Canlyniadau: Partneriaeth Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol

- Canfod a defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth am arferion gorau i lywio camau i adnabod a chytuno ar flaenoriaethau a datblygiad a chyflwyniad rhaglenni gwaith cysylltiedig;
- Archwilio a manteisio ar bob cyfle i ymgysylltu â sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai trwy weithio mewn partneriaeth a chynllunio a chyflwyno rhaglenni gwaith cydweithredol;
- Arwain a galluogi alinio prosesau cynllunio sydd wedi'u hanelu at gyflawni blaenoriaethau iechyd y cyhoedd, y Bwrdd Iechyd, gofal cymdeithasol a thai;
- Canfod y 'Llinyn Aur' tai sy'n cysylltu â strategaethau a chynlluniau iechyd y cyhoedd, y Bwrdd Iechyd a llywodraeth leol;
- Datblygu Strategaeth 10 mlynedd a rhaglen waith fesul cam sy'n mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth presennol ac anghenion a rhagwelir.

7. Blaenoriaethau'r Bwrdd yn y Dyfodol

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blyneddol yn rhoi crynodeb terfynol o'r cynnydd a wnaed ym marn y BPRh yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn ystyried y blaenoriaethau y bydd yn canolbwyntio arnynt yn y flwyddyn ganlynol a thu hwnt.

- 7.1** Mae BPRh Gwent yn cydnabod bod angen newid trawsnewidiol sylweddol i lunio gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer y dyfodol, ac maent wedi bod yn barod i ymgysylltu'n llawn â'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan fod hyn yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer y camau nesaf ar integreiddio iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- 7.2** Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n amlwg bod angen ffocws ac adnoddau ychwanegol ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar - a chydabyddir hyn yn y Cynllun Ardal (gweler adran 5 uchod), gyda rhai meysydd gwaith eisoes yn cael eu datblygu.
- 7.3** Mae'r angen sengl mwyaf ar gyfer trawsnewid yn ymwneud â'r gweithlu - gan sicrhau bod y cynnig i weithio o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys yr amodau gwasanaeth, cydnabyddiaeth a datblygiad gyrfa cywir i roi inni'r 'gweithlu lles' ar gyfer y dyfodol. Wrth symud ymlaen, bydd gofal a chymorth yn galw am y bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir os ydyw i fod yn effeithiol.

Atodiad 1: Cofresr o gyfarfodydd misol y BPRh

Dyddiad y cyfarfod	Math o gyfarfod	Pynciau allweddol a drafodwyd
Mai 2017	Business	Gohiriwyd oherwydd etholiadau llywodraeth leol.
4 Gorffennaf 2017	Business Busnes	Llywodraethu, comisiynu ffrydiau gwaith, rhwydweithiau lles integredig, diweddariad CGI, WCCIS, partneriaeth Oedolion ag Anghenion Cymhleth, diweddariad am banel y dinasyddion, Mesur gofawyr, llywodraethu TICD.
7 Medi 2017	Busnes	Dewis, y porth i ddinasyddion, 111 rhif di-argyfwng, comisiynu integredig a chronfa gyfunol ar gyfer cartrefi gofal, partneriaeth Plant a Theuluoedd, WCCIS, diweddariad CGI, Cynllun Ardal.
2 Tachwedd 2017	Busnes	Cronfa gyfunol ar gyfer cartrefi gofal, diweddariad ar y bartneriaeth strategol ar gyfer oedolion, CGI a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, strategaeth Gofal yn nes at y Cartref, adroddiad blynyddol panel y dinasyddion, diweddariad ar gynllunio ar gyfer y gaeaf, llythyr Gweinidogol.
11 Ionawr 2018	Busnes	Ymweliad Gweinidogol, cyllideb gyfunol ar gyfer cartrefi gofal, pwysau'r gaeaf / Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, diweddariad CGI, adroddiad ar weithdai'r fforwm darparwyr, Cynllun Ardal.
6 Mawrth 2018	Busnes	Adolygu'r CGI ac anfon argymhellion, Cynllun Ardal, ffrydiau gwaith Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, diweddariad ar Lywodraethu, diweddariad ar gyllidebau cyfunol, rhaglen WCCIS, sesiynau datblygu'r BPRh.
16 Mawrth 2018	Datblygu	Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol - wedi'i hwyluso gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus.

Atodiad 2: Aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae aelodaeth ofynnol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i nodi mewn canllawiau statudol fel Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Mae'n ofynnol iddo gynnwys aelodau etholedig awdurdod lleol o bob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol pob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd, Aelodau Annibynnol y Bwrdd Iechyd Lleol, Prif Weithredwr ac uwch Gyfarwyddwyr Bwrdd Iechyd Lleol yr Ardal, a Chadeiryddion Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn ardal y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd hefyd yr hyblygrwydd i gyfethol aelodau ychwanegol pe dymunant.

Mae aelodaeth bresennol y BPRh ym mis Mawrth 2018, fel a ganlyn:

Phil Robson	Aelod Annibynnol	BIPAB (Cadeirydd BPRh)
Anne Lloyd	Aelod Annibynnol	BIPAB
Kateja Dew	Aelod Annibynnol	BIPAB
Richard Bevan	Ysgrifennydd y Bwrdd	BIPAB
Cllr Richard Clarke	Aelod Gweithredol	Torfaen (Is-gadeirydd BPRh)
Cllr John Mason	Aelod Gweithredol	Blaenau Gwent
Cllr Carl Cuss	Aelod Gweithredol	Caerffili
Cllr Penny Jones	Aelod Gweithredol	Sir Fynwy
Cllr Paul Cockeram	Aelod Gweithredol	Casnewydd
Judith Paget	Prif Weithredwr	BIPAB
Nick Wood	Prif Swyddog Gweithredu	BIPAB
Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIPAB
Damien McCann	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol	Blaenau Gwent
Dave Street	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol	Caerffili
Claire Marchant	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol	Sir Fynwy
James Harris	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol	Casnewydd
Keith Rutherford	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol	Torfaen
Andrew Belcher	Mirus	Cynrychioli'r Darparwr
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	Cynrychioli'r Darparwr
Chris Hodson		Cynrychioli Dinasyddion
Lorraine Morgan		Cynrychioli Dinasyddion
Edward Watts	Cadeirydd, GAVO	Cynrychioli'r Trydydd Sector
Steve Brooks	Cadeirydd, CWT	Cynrychioli'r Trydydd Sector



